OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 1626 (Cy. 209)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Llanelen i System Gylchu Hardwick, y Fenni, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Awst 2015* |
| *Yn dod i rym* | *1 Medi 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Amwythig (yr A4042) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd a chyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Medi 2015 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Llanelen i System Gylchu Hardwick, y Fenni, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2015.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 1 Medi 2015 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o'r gefnffordd rhwng Llanelen a System Gylchu Hardwick, y Fenni yn Sir Fynwy a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl

neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb yn ystod cyfnod y gwaith ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 yn ystod yr adegau hynny y mae'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 mewn grym.

**Atal**

**7.** Drwy hyn mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Llanelen, y Fenni, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2002**(3)** wedi eu hatal o ran y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau hynny y mae'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 5 ar waith.

**Cymhwyso**

**8.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i’r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a’r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

**9.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 25 Awst 2015

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** OS 2002/2549 (Cy.249)

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o’i chyffordd â'r B4269 yn Llanelen hyd at ei chyffordd â System Gylchu Hardwick, y Fenni.

### ATODLEN 2
### Terfynau Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd i'r gogledd o Lanelen sy'n ymestyn o bwynt 399 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4269 yn Llanelen hyd at ei chyffordd â System Gylchu Hardwick, y Fenni.

Y darn o'r gefnffordd i'r de o Lanelen sy'n ymestyn o bwynt 603 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4269 hyd at bwynt 103 o fetrau i'r de o ganolbwynt y gyffordd honno.

### ATODLEN 3
### Terfyn Cyflymder 10 mya a Dim Goddiweddyd Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd yn Llanelen sy'n ymestyn o bwynt 103 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4269 hyd at bwynt 399 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt y gyffordd honno.